
# Y Dinesydd

Tachwedd 2011 Rhif 362 Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch Pris: 80 ceiniog

## Dau yn codi £5,000

Bu cyfeiriadau yn *Y Dinesydd* a chyfryngau eraill at syniad gwreiddiol iawn Cyril a Margaret Hughes i fynd ar bererindod noddedig i chwe eglwys gadeiriol Anglicanaidd Cymru i godi arian tuag at gostau atgyweirio rhannau o Eglwys Dewi Sant, Caerdydd.

Teithiodd y pererinion modern hyn ar fysiau a manteisio ar eu hawl i ddefnyddio eu pas teithio. Ymwelwyd â'r eglwysi cadeiriol yn y drefn ganlynol – Llandaf, Gwynllyw (Casnewydd), Aberhonddu, Tyddewi, Bangor a Llanelwy.



*Y ddau bererin yn Nhŷ Ddewi*

Cyflwynwyd Cerdyn Cyfarch gan y Parchedig Dyfrig Lloyd (ficer) a ddyluniwyd dan gyfarwyddyd Rhys Jones (warden) i bob cadeirlan, ac mae'r ddau bererin yn gwerthfawrogi pob croeso a gawsant. Maent hefyd yn llawn edmygedd o ddoniau gyrrwyr y bysiau yn gweu i mewn ac allan o'r trefi, y maestrefi a'r pentrefi yn ddiogel. Maent yn cydnabod eu dyled i *Traveline Cymru* ac yn dweud, 'Roedd y wybodaeth yn gywir a'r bysiau i gyd yn brydlon'.

Erbyn diwedd Hydref yr oedd y nawdd a gawsant wedi cyrraedd y swm anhygoel o £5,000. Gorchest yn wir. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau a diolch o galon i'r holl noddwyr.

## *Penblwydd Hapus i'r Cylch Cinio*

Dechreuodd tymor newydd Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd nos Lun, Hydref 3ydd. Dim byd arbennig? Wel, dyma gychwyn ar y 60ain tymor. Mae byd Cymry Cymraeg y Brifddinas wedi newid llawer ers y cyfarfod cyntaf yn 1951 - ond un peth sydd heb newid yw'r arfer i eistedd i lawr, mwynhau cinio a gwrando ar siaradwr neu siaradwraig. Ein gwestai cyntaf i dymor 2011-2012 oedd Mari Emlyn yn siarad am ei llyfr *Llythyrau'r Wladfa*.

Yn y llun gyda Mari mae Llywydd y Cylch, Alun Reynolds. Mae Alun wedi bod yn brysur yn trefnu siaradwyr ar gyfer y tymor - cadwch lygad ar ddyddiadur *Y Dinesydd* am fanylion, neu e-bostiwch ajcouch@yahoo.co.uk.

Mis Tachwedd eleni bydd y Cylch yn ymuno gyda Chymdeithas Carnhuanawc yn eu Cinio Blynyddol yng Ngwesty Churchills yng nghwmni Angharad Mair.



*Mari Emlyn ac Alun Reynolds, Llywydd y Cylch*

## GOHIRIO PENODI PENNAETH

Methwyd a chynnal y cyfweliadau i benodi pennaeth i ysgol arfaethedig Bro Edern, sef y drydedd ysgol uwchradd Gymraeg yng Nghaerdydd, oherwydd trafferthion annisgwyl ynglŷn â lleoliad cychwynnol yr ysgol. Yn ôl y drefn a gymeradwywyd gan y Gweinidog Addysg, lleolir Ysgol Bro Edern ar safle bresennol Ysgol Sant Teilo (ysgol eglwys), ac fe adleolir Ysgol Sant Teilo i safle bresennol Ysgol Llanedeyrn, sydd yn y broses o gau.

Yn ôl y cytundeb, o 2012 yr oedd Ysgol Sant Teilo i fodoli yn rhannol ar ei safle bresennol ac yn rhannol ar safle Ysgol Llanedeyrn, gan gwblhau'r adleoli erbyn Medi 2014. Yn 2012 hefyd byddai Ysgol Bro Edern yn derbyn ei disgyblion cyntaf, a hynny ar safle bresennol Ysgol Sant Teilo. Hynny yw, am ddwy flynedd byddai plant Ysgolion Bro Edern a Sant Teilo yn rhannu safle. Roedd y drefn hon yn galluogi'r Awdurdod Addysg sirol i ehangu ac addasu adeiladau Llanedeyrn, ar gôst o tua £27m, ar gyfer Ysgol Sant Teilo.

Yn ystod yr wythnos cyn y cyfweliadau fe ddatgelwyd i lywodraethwyr Bro Edern nad oedd llywodraethwyr a phennaeth newydd Sant Teilo yn fodlon derbyn plant Bro Edern yn 2012, yn unol â'r cytundeb, a byddai'n well ganddynt gadw Ysgol Sant Teilo ar un safle am flwyddyn arall.

*Parhad ar dudalen 2*

# Y Dinesydd

Golygydd y rhifyn hwn:
Gwynn Matthews

Golygydd y rhifyn nesaf (Rhagfyr):
Hywel Jones

Anfonwch ddeunydd ar gyfer rhifyn Tachwedd erbyn 27 Tachwedd at:
4 Heol Heath Halt, Y Mynydd Bychan, Caerdydd. CF23 5QF
Ffôn: 02920 211855 / 07967 558462
hywel.jones4@ntlworld.com

Bydd y Dinesydd o hyn ymlaen yn ymddangos ar y 10fed o'r mis. Gallwch anfon digwyddiadau hyd at y 10fed felly i'w cynnwys yn y calendr.

**MANYLION CYSYLLTU**

**Calendr y Dinesydd**
Dr E. Wyn James
16 Kelston Road, Caerdydd. CF14 2AJ
029 20628754
JamesEW@caerdydd.ac.uk

**Hysbysebion**
Ceri Morgan
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais
Caerdydd, CF15 7HU
ceri33@btopenworld.com
029 20813812

**Dosbarthu copïau**
Huw Jones
22 Blaen-y-coed, Radur
Caerdydd, CF15 8RL
07985 174997

Cyhoeddir y Dinesydd gan
Bwyllgor y Dinesydd

Argraffwyd gan
Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd

# GOHIRIO PENODI PENNAETH

*Parhad o dudalen 1*

Daeth yr Awdurdod Addysg sirol i'r casgliad na fyddai'n deg ar blant Bro Edern i'w gorfodi ar Ysgol Sant Teilo, ac mai doethach fyddai i'r ysgol ddechrau ar safle Llanedeyrn, a symud yn ddiweddarach i safle Sant Teilo. Nid oedd y cynllun hwn yn dderbyniol o gwbl gan lywodraethwyr Bro Edern.

Dewis arall a roed ger bron oedd cychwyn Ysgol Bro Edern ar ran o safle Ysgol Glantaf. Rhoddodd yr awgrym hwn bennaeth a llywodraethwyr Glantaf mewn sefyllfa anodd dros ben. Daeth yn amlwg mai'r unig ddewis mewn gwirionedd oedd rhwng agor Bro Edern mewn rhan o Glantaf a gohirio agor Bro Edern am flwyddyn. Wedi trafod dwys iawn daeth llywodraethwyr Glantaf i'r penderfyniad, mewn cyfarfod ar 18 Hydref, y byddent yn ildio i gais yr Awdurdod Addysg sirol, ar y ddealltwriaeth fod yr addewidion o adnoddau y byddai Glantaf yn eu derbyn gan yr Awdurdod i ymdopi â'r gofynion ychwanegol yn cael eu cyflawni.

(Crynodeb o adroddiad gan Michael L.N. Jones – Gol.)

## *Cydymdeimlo â*

- theulu y diweddar Nel Thomas 95 oed a fu farw ar 29 Medi. Bu'r angladd yng Nghapel y Crwys ar 10 Hydref ac yn dilyn yn Amlosgfa'r Ddraenen.
- theulu y diweddar George Prydderch Owen, Llandaf, ond gynt o Sir Fôn, a fu farw yn Ysbyty'r Brifysgol ar 9 Hydref. Bu'r angladd yng Nghapel y Crwys ac yna yn Amlosgfa'r Ddraenen 25 Hydref.
- theulu y diweddar J. Hefin Elias, cyn-ddarlithydd ym Mhrifysgol Morgannwg, a fu farw yn ei gartref ar ddechrau mis Hydref. Cafwyd angladd preifat ond cynhaliwyd oedfa o ddiolchgarwch am ei fywyd yng Nghapel Highfields ar 14 Hydref.
- theulu y diweddar Megan Davies y Tyllgoed, 92 oed, a fu farw yn Ysbyty'r Brifysgol ar 18 Medi. Bu'r angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen ar 5 Hydref.

# NEWYDDION...

## Cordydd yn serenu

Cynhaliwyd cyngerdd gan Gordydd yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd, yn ystod mis Hydref, a chanwyd nifer o weithiau y cyfansoddwr rhyngwladol Eric Whitacre dan faton y cyfansoddwr ei hun. Cafodd y cyngerdd ganmoliaeth uchel gan yr adolygwyr cerdd. Cysylltodd Sioned James, arweinydd y côr, â'r cyfansoddwr ar ôl clywed ei waith yn cael ei ganu yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen, a daeth draw i Gymru i gydweithio â'r côr wrth iddo baratoi i berfformio ei waith.

## Ethol swyddogion Côr Aelwyd Hamdden

Yn y cyfarfod blynyddol ar 4 Hydref etholwyd Gwen Holt yn Gadeirydd, Val Scott yn Is-Gadeirydd, Beryl Thomas yn Ysgrifennydd, Idwal Hughes yn Drysorydd a Dilys Hicks yn Gyfeilydd. Arweinydd y côr yw Eilionwy Jones. Am fwy o wybodaeth am y côr ffôniwch 20691685.

## Cefnogi Ambiwlans Awyr Cymru

Yng nghyfarfod mis Hydref o Gymdeithas Gymraeg Rhiwbeina daeth Eirwen Richards o Ben y Bont ar Ogwr i siarad am 'Bugeiliaid Stryd'. Yn ynstod y cyfarfod hefyd cyflwynwyd siec am £2,000 i Alun Davies, cynrychiolydd o Ambiwlans Awyr Cymru gan Gwyneth Jennings, Trysorydd y Gymdeithas. Tŷ Hafan fydd elusen ddewisiedig y gymdeithas am eleni.

## Siopau lle gellir prynu'r Dinesydd

**SIOP Y FELIN**, 54-60 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, CF14 1DJ
**CABAN**, 169 Kings Road, Pontcanna, CF11 9DE
**DERI STORES**, 1 Wenallt Road, Rhiwbeina, CF14 6SA
**VICTORIA FEARN GALLERY**, 6b Heol y Deri, Rhiwbeina, CF14 6HF
**HALLS**, 44 Stryd Fawr, Llandaf, CF5 2DZ
**HALCYON DAZE**, 55 Wellfield Road, Y Rhath, CF24 3PA
**SIOP LYFRAU WINDSOR**, 9a Windsor Road, Penarth, CF64 1JB
**FOOD FOR THOUGHT**, 12 High Street, Y Barri, CF62 7EA
**COFFEE LOUNGE**, 38 Station Road, Llanisien, CF14 5LT
**VEG VENDOR**, 8 Station Road, Radur, CF15 8AA

# Tymor Newydd Cymrodorion Caerdydd

Dechreuodd tymor 2011/12 y Cymrodorion ar 14 Hydref gydag arwisgiad y Llywydd newydd, sef Havard Gregory, gan ei ragflaenydd, yr Athro John Gwynfor Jones.


Yn ôl y traddodiad, mae noson agoriadol y tymor yng ngofal y Llywydd newydd. Benthycodd ymadrodd T.H. Parry-Williams, 'Hwn-a-hwn, hyn-a'r-llall, fel-a'r-fel' yn deitl i'w gyflwyniad hunan-gofiannol diddorol.

Cyn sôn am ei yrfa ei hun, rhoddodd beth o gefndir ei enw bedydd – Havard. Enw teulu ochr ei fam yw Havard, enw Normanaidd mewn gwirionedd, enw a ddaeth drosodd o Normandi mor gynnar â 1089. Canodd rhai o Feirdd yr Uchelwyr gerddi mawl i aelodau'r teulu, beirdd megis Huw Cae Llwyd a Dafydd Epynt.

Ym maes darlledu, fel y gwyddom, y gwnaeth ei gyfraniad mawr i'n bywyd diwylliannol, a diddorol oedd deall iddo gael ei gyfareddu gan y byd darlledu pan oedd yn blentyn yng Ngwaelod y Garth mor gynnar â 1937. Cyn cychwyn ar yrfa daeth cyfnod fel myfyriwr yn Rhydychen. Difyr oedd clywed am 'Y Dafydd' yn ei gyfnod ef a'i atgofion am bobl fel Henry Lewis a Kyffin Williams.

Daeth ei yrfa ag ef i gysylltiad ag unigolion oedd yn amlwg yn eu maes, dynion fel T. Rowland Hughes, Richard Burton, Bertrand Russell, Dylan Thomas, Nansi Richards a llu o rai eraill.

Rhwng 1946 a 1950 bu yn athro yn Llydaw. Daeth a lluniau hynod ddiddorol o'r cyfnod hwn i'w dangos. Yn eu plith yr oedd lluniaiu a wnaed gan yr arlunydd Xavier de Langlais o'r difrod a wnaeth y bomio i dref hynafol San Malo, a ffotograffau o Havard gyda'r ddirprwyaeth a aeth o Gymru i ymchwilio i driniaeth y Weriniaeth Ffrengig o genedlaetholwyr Llydewig ar ôl y rhyfel, yn eu plith W.J. Gruffydd, Cynan, Crwys a Dyfnallt. Yr oedd ei sylwadau ar y fintai nodedig hon yn ddiddorol dros ben!



*Swyddogion 2011/12. Gwynn Matthews (Ysgrifennydd), Yr Athro John Gwynfor Jones (Cyn-Lywydd), Havard Gregory (Llywydd), Illtyd Lloyd (Trysorydd)*

# CYMDEITHAS WYDDONOL CYLCH CAERDYDD

Fel arfer mae gwybod testun a deall cynnwys anerchiad yn bwysicach na gwybod am gefndir personol y siaradwr. Serch hynny, yn rhinwedd fy nghyfrifoldeb fel cadeiriydd ein cymdeithas, mae gofyn i mi holi'r gwestai. Nid felly yn ein cyfarfod agoriadol eleni. Doedd neb yn gwybod y mymryn lleiaf am Rhiannon Gwyn, dim hyd yn oed ein hysgrifenyddes, Cerian Angharad, a drefnodd y gwahoddiad. Fel hyn y bu. Mewn cynhadledd ffiseg gwelodd Cerian yr enw ar restr yr aelodau a meddwl - tybed a ydyw Rhiannon yn medru'r Gymraeg ac yn barod i ddod atom? Cadarnhaol oedd yr ymateb.

Cawsom ein goleuo ar y testun – Damcaniaeth Llinynnau a'r Bydysawd Cynnar. Y rhyfeddod oedd bod Rhiannon yn traethu'n gwbl rugl ar y testun tra dyrys hwn a hithau'n ddysgwraig. Mwy fyth o ryfeddod oedd deall mai hwn oedd y tro cyntaf iddi draethu yn Gymraeg. Mwy fyth eto o ryfeddod oedd clywed ei bod wedi'i geni yn Aberystwyth, wedi symud yn bedair oed i Johannesburg, wedi derbyn y cyfan o'i haddysg ysgol a phrifysgol yno, gan ennill gradd ffiseg, yna symud i Brifysgol McGill ym Montreal i ennill doethuriaeth yn y maes astrus a symud i Goleg y Brenin, Llundain yn 2009 i barhau ei hymchwil. Daw ei nawdd i ben yn Ionawr 2012 a felly mae'n chwilio am leoliad arall. A'i gafael ar y Gymraeg? Ffrwyth brwdfrydedd ei thad, yntau hefyd yn ddysgwr, a fynnodd iddi ddysgu er nad oedd cymorth parod ar gael yn Johannesburg.

Mae testun y ddarlith yn ymwneud ag ymdrechion ffisegwyr i lunio damcaniaeth sydd yn cwmpasu'r bach, bach a'r mawr, mawr, yr is-atomig a'r cosmig. Dyma'r broblem. Gellir deall bydysawd mawr sêr a galaethau gyda chymorth Einstein ar ffurf ei Ddamcaniaeth Perthnasedd Gyffredinol. Gellir deall bydysawd bach molecylau ac atomau gyda chymorth damcaniaeth mecaneg cwantum. Datblygwyd y ddwy ddamcaniaeth dros y ganrif ddiwethaf gyda chadarnhad ysgubol. Oddifewn i derfynau eu bydysawdau penodol maent yn eithriadol lwyddiannus. Yn anffodus, ni all y ddwy fod yn gywir. Ers blynyddoedd bu ffisegwyr yn dawel gydnabod hyn, ond yn bodloni ar y llwyddiannau 'cyfyngedig'. Mae'r Ddamcaniaeth Llinynnau yn ceisio wynebu'r gwir anghyfleus.

*Neville Evans*

**Gwahoddiad i Farddoni**

Enillydd y gystadleuaeth yw'r Dr Alun Ogwen gyda'i englyn

**Y Cemegydd**

Y triniwr electronau – a welai
Ddirgelwch atomau;
Un o wir ddawn sy'n rhyddhau
Nwyf a hoen yr elfennau

Yn ail, mae'r Athro Ken Morgan, gyda'i gyngor a'i ddarogan i ddisgyblion sy'n dewis pynciau STEM (Science, Technology, Engineering, Mathematics)

**Dewis**

Meddyliwch am ychydig
Mae'ch dewis chi yn bwysig;
Ond, cofiwch sut bydd gwella'ch clem
O'r pynciau STEM yn elwig.

menter caerdydd

**www.mentercaerdydd.org**
**029 20689 888**

### Gweithgareddau Hanner Tymor yr Hydref

Mynychodd dros 1,500 o blant a phobl ifanc weithgareddau a chlybiau'r Fenter yn ystod hanner tymor. Mae'r cyfnodau gwyliau yn brysurach nac erioed a phawb wrth eu bodd! Yn ystod yr wythnos, mae'r Cynlluniau Chwarae wedi bod ar daith i Sw Bryste, wedi cael ymweliad gan y Ganolfan Eryrod, gweithdai sgrap, celf a chrefft a chwaraeon. Mae'r sesiynau Bwrlwm wedi bod yn brysur yn paratoi tegannau ac addurniadau Calan Gaeaf a Bowlio Deg. Mae'r gweithdai Cynradd wedi cynnwys Mosaic, Pel-Rhwyd, Adeiladu Rafft a Choginio, ac mae criw Glantaf a Phlasmawr wedi cael cyfleodd i gymryd rhan mewn sesiynau ffasiwn, rafftio ac ymladd peli paent! Rydym wrthi'n barod yn cynllunio gweithgareddau ar gyfer hanner tymor mis Chwefror!




*Ymweliad gan y Ganolfan Eryrod â'r cynlluniau chwarae.*

### Cyrsiau Undydd i Oedolion

Bydd amrywiaeth o gyrsiau undydd ar gyfer Oedolion yn cael eu cynnal mewn parnteriaeth â Chyngor Caerdydd Ddydd Sadwrn, Tachwedd 26. Cynhelir y cyrsiau i gyd yn Ysgol Gyfun Plasmawr, Y Tyllgoed.

**Dawnsio Lladin** gyda Mari-Wyn / 1.30pm – 4.30pm

**Ysgrifennu Creadigol** gyda Sian Summers, 1.30pm-3.30pm

**Paratoi'r Cinio Nadolig Perffaith** gyda Padrig Jones / 1.30pm-4.30pm

**Crefftau'r Nadolig** gyda Edwina Williams Jones / 1.30pm – 4.30pm

Am fwy o fanylion, ac i gofrestru, ewch i wefan y Fenter – mentercaerdydd.org neu ebostiwch aweldavies@mentercaerdydd.org

### Sblish Sblash Babis Dŵr

Bydd prosiect newydd 'Sblish Sblash Babis Dŵr' yn dechrau yng Nghanolfan Hamdden y Tyllgoed ar ddiwedd y mis. Mae'r sesiynau nofio i fabis a phlant bach o dan 3 oed a'u rhieni yn gyfle gwych i ymgyfarwyddo â sgiliau nofio mewn awyrgylch Cymraeg, hwyliog a hapus! Bydd y cwrs yn dechrau Dydd Iau, Tachwedd 24 ac yn parhau am 6 sesiwn – 3 cyn y Nadolig a 3 yn y flwyddyn newydd. £35 fydd cost y cwrs (cynigir gostyngiad o hanner pris i'r di-waith). Mae croeso mawr i siaradwyr Cymraeg, dysgwyr a rhieni sy'n awyddus ail-gydio yn y Gymraeg. Mae'r sesiynau'n cael eu hariannu gan brosiect Bwrdd yr Iaith Gymraeg 'Ail Gydia yn dy Gymraeg'.

### Penwythnos Teulu Llangrannog Pasg 2012

Dydd Gwener Mawrth 30 – Dydd Sul, Ebrill 1
Am fwy o fanylion, ac i gofrestru ewch i wefan y Fenter -www.mentercaerdydd.org neu ebostiwch leanne@mentercaerdydd.org

### Cwis y Mochyn Du

Fe fydd cwis Cymraeg nesaf y Fenter yn cael ei gynnal Nos Sul, Tachwedd 27 yn y Mochyn Du am 8pm. £1 y person. Mae croeso cynnes i bawb!

## Dathlu'r 10 ym Miri Mawr

Ar 21ain o Hydref 2001 agorwyd drysau meithrinfa Gymraeg Miri Mawr yn Ystum Taf yng Nghaerdydd gan Meinir Williams a Wendy Wylie, dwy athrawes yn enedigol o Orllewin Cymru. Ar ddydd Gwener, 21ain o Hydref 2011 eleni, efo drysau Miri Mawr dal yn agored, daeth pawb i ddathlu degawd o wasanaeth gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg. I nodi'r achlysur, gwahoddwyd Heini i ddod i ddiddanu'r plant a chafwyd prynhawn egniol yn ei chwmni â'r plant wrth eu boddau. Roedd nifer o blant nad ydynt yn mynychu Miri Mawr ar ddydd Gwener wedi dod gyda'i rhieni. Wrth lwc, roedd hi'n brynhawn sych a mwynhaodd y plant allan yn yr ardd ar ôl te blasus.

Dros y blynyddoedd camodd cannoedd o blant drwy ddrysau Miri Mawr, yr un hynaf erbyn hyn ym Mlwyddyn 9 yn Ysgol Plasmawr. Bu newidiadau hefyd dros y blynyddoedd diwethaf gyda dyfodiad y Cyfnod Sylfaen ac felly Miri Mawr yn addasu'r ardd eang i'r diben hwn. Ddwy flynedd yn ôl, cyfansoddodd y bardd Ceri Wyn Jones englyn am Miri Mawr fel a ganlyn:

Ym Miri Mawr mae o hyd iaith gynnes
a theganau hyfryd,
a hafan lawn sbort hefyd
i rai bach anwyla'r byd.

*Ceri Wyn Jones*

Ymddengys yr englyn ar dudalen flaen gwefan Miri Mawr. I nodi'r degawd, comisiynwyd yr artist Eurfryn Lewis i greu darn o waith celf fyddai'n cynnwys yr englyn. Pan fydd y gwaith wedi'i orffen, bydd yn cael ei arddangos yng nghyntedd y feithrinfa.

Hoffai Meinir a Wendy ddiolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad dros y deng mlynedd ddiwethaf.

# Colofn G.R.

Yn fy ngholofn ym mis Hydref on i wedi anobeithio am weld Haf Bach Mihangel ond mae tywydd Cymru yr un mor anwadal â thywydd Patagonia a felly cafwyd Haf Bach Mihangel wedi'r cwbl a diolch amdano gan iddi godi ein calonnau cyn dyfod "llaw y Gaeaf oer" i'n diflasu i gyd!

Siom odd clywed am rai o Gymry Cymraeg tre Aberteifi yn ymgyrchu yn erbyn troi ysgol gynradd y dre yn ysgol Gymraeg go iawn. Daw geiriau Emrys ap Iwan i'r cof wrth feddwl am y sefyllfa hon sef 'os lleddir y Gymraeg fe'i lleddir yn nhŷ ei chyfeillion'.

Ond os odd hanes Aberteifi yn fy niflasu ces fodd i fyw yn mynychu dau gyfarfod yn ystod y mis, sef cinio yn Neuadd Canolfan Gynadleddau MedRus ar gampws Prifysgol Aberystwyth a chinio yng Nghlwb Golff Radur. Odd y cinio cyntaf dan nawdd Mudiad Ysgolion Meithrin gan fod y Mudiad yn dathlu ei ddeugeinfed pen-blwydd ers ei sefydlu nôl yn 1971. Oni bai am y Mudiad hwn byddai gwedd llawer llai llewyrchus ar yr iaith, a chalonogol odd clywed fod dros bum cant o gylchoedd meithrin a thros bedwar cant o gylchoedd Ti a Fi ar waith yn y wlad bellach.

Cynhaliwyd yr ail ginio dan nawdd Cronfa Glyndŵr sy'n hyrwyddo addysg Gymraeg drwy gynnig cymorth ariannol ble bynnag mae angen i gyrraedd y nôd. Daeth dros gant o garedigion addysg Gymraeg ynghyd i wrando ar anerchiad gan Dr John Davies, yr hanesydd, ac i gefnogi'r Gronfa.

Yn ystod y mis hefyd cynhaliwyd Hanner Marathon Caerdydd hefo miloedd yn rhedeg i godi arian at wahanol elusennau. Pan on i ym mlodau fy nyddiau ces i'r fraint o redeg yn y râs hon ddwy waith a gorffennais unwaith mewn awr a chwe munud a deugain! Y tro cyntaf i mi gymryd rhan ces wefr arbennig wrth redeg ynghanol y miloedd a derbyn medal am fy ngwddw fel pawb arall orffennodd y râs! Ond mae fy nyddiau rhedeg ar ben bellach gwaetha'r modd!

Daeth ymdrech tîm rygbi Cymru i gyrraedd rownd derfynol Cwpan Rygbi'r Byd i ben mewn ffordd ddramatig a dadleuol ond rhaid cydnabod cyfraniad clodwiw ein tîm cenedlaethol i lwyddiant y gystadleuaeth, a buon nhw'n llysgenhadon teilwng ar y cae ac oddi ar y cae. Hanes ydy'r gystadleuaeth rwan a felly rhaid edrych ymlaen bellach yn arbennig i'r tymor nesa pan gynhelir cystadleuaeth y chwe gwlad. Ymlaen Cymru a phob lwc!

# Merched y Wawr Caerdydd

Croesawyd nifer dda iawn ohonom i gyfarfod cyntaf y tymor gan ein Llywydd, Gwen Môn Holt. Pleser oedd cael llongyfarch ein siaradwr gwadd, Manon Rhys, ar ennill y Fedal Ryddiaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Cawsom noson ddifyr yn gwrando ar Manon yn trafod ei nofel *Neb Ond Ni*.

Clywsom ganddi sut y gallodd atgynhyrchu sawl tafodiaith mor llwyddiannus oherwydd iddi fyw mewn cymaint o ardaloedd gwahanol yng Nghymru. Aeth â ni i fyd delfrydol Cwm Rhyd y Rhosyn, caneuon Dafydd Iwan ac Edward Morris Jones o'r saith-degau. Soniodd am ei hadnabyddiaeth o blant bach arbennig a fu'n ysbrydoliaeth iddi bortreadu'r ddau brif gymeriad yn y nofel, Siriol a Dewi, mor effeithiol a theimladwy.

Datgelodd fod sawl haen i'r nofel sydd ddim efallai yn amlwg i'r darllenydd ar y darlleniad cyntaf brysiog. Bydd sawl un ohonom yn mynd yn ôl ati am yr ail a'r trydydd tro gyda chwilfrydedd ar ôl gwrando ar Manon. Diolchwyd iddi gan Heulwen Jones.



*Manon Rhys gyda Gwen Holt, Llywydd y Gangen.*

## Rysáit Mis Tachwedd

### CYRI CIG EIDION

Rysáit arall o'r llyfr ***Cymru ar blat/ Wales on a plate*** i fwyta ar ddiwrnodau oer! Bydd angen dechrau'r broses yma y noson gynt er mwyn i'r cig cael marineiddio yn y sbeisys.

***Cynhwysion***

- 2 chili wedi'u sychu a'u torri'n ddarnau
- 1 darn o bren sinamon
- 10 grawn pupur du
- 2 lond llwy de o hadau cwmin
- 2 glôf cyfan
- 700g/pwys a hanner o stêc cig eidion wedi'i dorri'n ddarnau
- olew blodyn yr haul
- 4 winwnsyn (nionyn) wedi'u sleisio'n denau
- 2 ewin garlleg wedi'u malu'n fân
- llond llwy de o sinsir ffres wedi'i blicio a'i falu'n fân
- 50g/2owns o almonau mâl
- halen

Twymwch badell ffrio fechan ar dân isel a rhostiwch y darnau chili sych am ychydig funudau cyn eu rhoi mewn prosesydd bwyd bychan. Rhowch weddill y sbeisys yn y badell a'u rhostio am funud new ddwy gan eu troi bob hyn a hyn. Ychwanegwch y rhain at y chili a'u cymysgu yn y prosesydd nes byddant yn bowdwr. (Gallwch falu'r cyfan mewn pestl a mortar os dymunwch.) Mewn dysgl fawr, trochwch y cig a llond llwy fwrdd o olew yn y powdwr sbeis (gwisgwch fenyg rwber rhag ofn i chi rwbio'r chili ar eich bysedd.) Gorchuddiwch y ddysgl a'i rhoi yn yr oergell dros nos.

Mewn sosban weddol o faint ar dân cymedrol, twymwch rhyw 4 llond llwy fwrdd o olew cyn ychwanegu'r winwns, y garlleg a'r sinsir. Coginiwch am tua 10 munud nes y byddant yn euraidd.



Ychwanegwch y cig a gadewch iddo frownio. Ychwanegwch 500ml/ ychydig llai na pheint o ddŵr, yr almonau a phinsied o halen. Dewch â'r cyfan i'r berw cyn gostwng y gwres, rhoi caead ar y sosban a'i adael i ffrwtian yn araf am tuag awr. Bwytewch y cyri gyda reis a chatwad mango.

**Diolch i Ymgynghoriaeth Bwyd Howel (www.howelfood.co.uk) am y rysáit.**

# Ôl-Lwybrau

## Ioan Kidd

'You're from Wales, you are,' meddai'r ferch ysgol 15 oed. 'So are you', atebais. 'No I'm not, I'm from Cardiff', mynnodd hi'n daer. Anghofia' i byth mo'r sgwrs ryfedd (a hollol wir) honno 35 mlynedd yn ôl, a minnau'n athro ifanc oedd newydd symud o Orllewin Morgannwg i weithio yn y brifddinas. Efallai mai anwybodaeth ddiniwed oedd wrth wraidd ei geiriau anfarwol, ond ni allwn lai na theimlo ei bod hi'n siarad ar ran llawer o'i chyd-ddinasyddion ar y pryd.

Dwi'n gwbl grediniol na fyddai'r un sgwrs yn digwydd nawr. Mae brodorion Caerdydd yn fwy ymwybodol o'u lle yn y genedl hon bellach, ac maen nhw wedi cofleidio'u Cymreictod wrth i ddylanwadau iachach ddisodli degawdau o glodfori Prydeindod ac ymerodraeth. Dyw'r ddinas erioed wedi bod mor Gymreig na Chymraeg, am wn i, nac mor hyderus chwaith.

Eto i gyd, dyw Caerdydd ddim fel dinasoedd dwyieithog, amlwg eraill: dinasoedd fel Brwsel a Barcelona. Iaith swyddogol yn unig yw'r Gymraeg, wedi'i chyfyngu i arwyddion swyddogol, archfarchnadoedd, banciau a llefydd tebyg. Ychydig o siopau a busnesau bach sy'n ei harddangos ac arnon ni, siaradwyr Cymraeg, mae'r bai am hynny i raddau helaeth am nad ydyn ni'n ddigon gweladwy nac yn ddigon parod i fynnu gwasanaethau normal yn ein hiaith. Cwyno'n dawel ac yn breifat fyddwn ni yn lle chwarae'r diawl pan fo peiriant twll yn y wal yn uniaith Saesneg. Yn Barcelona maen nhw mewn pedair iaith. Rydyn ni'n dal i siopa yn M&S er bod eu darpariaeth Gymraeg yn gywilyddus. Rydyn ni'n dal i oddef City Centre, Ely, Whitchurch a Not in Service ar flaenau ein bysus er bod technoleg yn ei gwneud hi'n gwbl bosib inni gael y rhain yn Gymraeg hefyd.

Ond yma mae 'nghartref ac yma y magwyd fy nheulu, a fyddwn i ddim eisiau byw yn unman arall yn y wlad hon. Mentraf ddweud bod mwy o Gymraeg i'w chlywed ar strydoedd y brifddinas y dyddiau 'ma nag mewn sawl pentref yn y Gorllewin a'r Gogledd, ond nid iaith gymunedol mohoni… eto. I lawer ohonon ni sydd wedi symud i fyw yma, rhywle dros dro yw Caerdydd, rhywle i fyw a gweithio nes inni ymddeol a mynd 'adref'. Efallai y dylen ni wneud mwy i fwrw gwreiddiau yma yn lle byw mewn ystafell aros, a thrwy wneud hynny bydden ni hefyd yn gadael ein hôl ar y ddinas hon.

## *Llongyfarchiadau*

**Seren Pêl-droed yn derbyn gwobr arall**
Llongyfarchiadau i'r seren pêl-droed Gareth Bale, 22 oed gynt o Gaerdydd, sydd yn chwarae i dîm Spurs, a hefyd dros Gymru, am ennill Tlws Chwaraewr y Flwyddyn gan FAW am yr ail flwyddyn yn olynol. Derbyniodd yr anrhydedd mewn cinio ar 4 Hydref yn yr Amgueddfa Genedlaethol ym Marc Cathays.

**Caerdydd yn ei flodau**
Ennillodd John a Peta Davies, Pantmawr, Rhiwbeina, y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth 'Caerdydd yn ei Flodau'. Cyflwynwyd y wobr iddynt mewn seremoni yn Neuadd y Ddinas, Parc Cathays, nos Fawrth 4 Hydref.

**Is-Lywydd newydd i'r Amgueddfa Genedlaethol**
Penodwyd un o ymddiriedolwyr yr Amgueddfa yn Is-lywydd tan 2015, sef Dr Haydn Edwards, Llangefni, sy'n gyn Bennaeth Coleg Menai. Dymunir yn dda iddo.

**Tlws o Flodau i Anne**
Bob wythnos bydd papur newydd yr *Echo* yn cyflwyno tusw o flodau i berson haeddiannol, ac yn ddiweddar anrhydeddwyd Ann Innes, yr Eglwys Newydd, a hithau dros y blynyddoedd wedi codi dros £100,000 i Sefydliad y Galon drwy drefnu cyngherddau ac ati. Cafodd Ken, ei diweddar ŵr, drawsblaniad y galon yn Ysbyty Harefield yn ôl yn 1982 a bu fyw tan 1993. Yn ystod y cyfnod hwn dechreuodd y cwpwl godi arian at y Sefydliad, a pharhaodd Anne gyda'r gwaith ar ôl colli ei gŵr. Y flwyddyn nesaf mae hi yn bwriadu cynnal Cyngerdd Arbennig yn Ysbyty'r Brifysgol, Caerdydd, i ddiolch i bawb sydd wedi ei chefnogi yn ei hymdrechion dros y blynyddoedd. Llongyfarchiadau Anne.


Prifysgol Cymru
University of Wales

**Siop Prifysgol Cymru**

- Llyfrau a chyfnodolion o'r safon uchaf a gyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Cymru yn Gymraeg a Saesneg.
- Llyfrau ar gyfer y darllenydd lleyg, myfyrwyr ac academyddion.
- Papurau ymchwil a ddarlithoedd y Ganolfan Uwchefrydiau Cymraeg a Cheltaidd, Aberystwyth
- Dillad, gemwaith ac anrhegion
- Bargeinion

Ymwelwch â ni yng nghwarter y Castell, Caerdydd:
12 Heol Fawr • Caerdydd • CF10 1AX
Ffôn: 029 20228205 • E-bost: siop@cymru.ac.uk

**EICH PRIODAS**
**FIDEO DVD a FFOTOGRAFFIAETH**

Ffilmio a Golygu i DVD
Ffotograffiaeth

Gwasanaeth Cymraeg gan ŵr camera teledu proffesiynol a phrofiadol.
Cofnodwch eich diwrnod ar fideo neu ar ffotograff.

Ymholiadau/Manylion pellach:
**07747 750838**
www.fideobiz.com

# Ysgol Bro Morgannwg

**Wythnos Democratiaeth Lleol**

Fel rhan o weithgareddau Wythnos Democratiaeth Lleol cynhaliwyd etholiadau Cyngor a Chabinet Ysgol. Cafodd un bachgen ac un ferch o bob dosbarth gofrestru eu hethol fel cynrychiolydd dosbarth i'r Cyngor Ysgol ac etholwyd un bachgen ac un ferch fel cynrychiolydd blwyddyn i Gabinet y Cyngor Ysgol. Roedd disgyblion wrth eu bodd yn defnyddio bythau a blychau pleidleisio.



*Bwrw pleidlais ym Mro Morgannwg*

Ar y dydd Iau daeth y V-Pod i'r Ysgol i godi ymwybyddiaeth y disgyblion am wythnos democratiaeth lleol a'u hawliau nhw i fod yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw – 'Cymeryd Rhan – Hawlio Pŵer'. Ymunodd rhai aelodau o'r Cyngor â swyddogion gwahanol adrannau'r Cyngor i siarad gyda disgyblion yn ystod yr awr ginio. Hefyd cawsant gyfle i bleidleisio am 'Bleidiwr Pobl Ifanc y Fro 2011 – 2012'. Yr enillydd oedd y Cynghorydd Richard Bertin ac mi fydd allan o amglych y Fro dros y flwyddyn nesaf yn cefnogi pobl ifanc.

# Ysgol Gymraeg Coed y Gof

**Eco-ysgol ddiweddaraf Caerdydd!**

Yn dilyn blwyddyn brysur iawn, llwyddodd Ysgol Coed-y-Gof i ennill y Faner Werdd. Gweithiodd yr Eco Bwyllgor yn galed a chyson i hyrwyddo ffyrdd o ofalu am ein hamgylchedd ac i hybu arbed, ailddefnyddio ac ailgylchu o amgylch yr ysgol. Trefnwyd wythnosau a diwrnodau penodol i ddysgu mwy am bynciau arbennig megis arbed ynni, bwydydd Masnach Deg, bwyta'n iach, cadw'n heini ac ailgylchu. O ganlyniad i waith caled a brwdfrydedd yr Eco Bwyllgor a gyda chymorth yr ysgol gyfan a'r staff, mae'r gwaith caled wedi talu ei ffordd ac



rydym yn falch o gael ennill statws y Faner Werdd.

Ar ddechrau'r mis, cynhaliwyd gwasanaeth arbennig i groesawu'r Faner Werdd ac i'w rhoi yn ei lle swyddogol, ar bolyn o flaen yr ysgol. Gwahoddwyd ymwelwyr i ymuno â ni i ddathlu'r diwrnod pwysig sef Dydd Gwener Gwyrdd, gan gynnwys ein Haelod Seneddol, Kevin Brennan a'n Haelod Cynulliad, Mark Drakeford. Mae wedi bod yn flwyddyn brysur i'r Eco Bwyllgor ac maent yn haeddu pob clod am eu llwyddiant. Rydym yn bwriadu parhau i weithio yr un mor galed i ofalu am ein daear a byw yn wyrdd y flwyddyn hon eto.

**Ysgolion Iach**

Braf iawn yw cyhoeddi fod yr ysgol wedi llwyddo i gyrraedd safon 'cyfnod tri' o gynllun ysgolion iach y sir, yn dilyn asesiad allanol ym Mis Medi. Llwyddasom drwy weithgareddau megis sefydlu clwb coginio wythnosol, cyd-weithio'n agos â staff ein cegin i wella ar brofiadau'r plant yn ystod amser cinio a datblygu ein system 'Buddies'. Llongyfarchiadau i bawb am eu hymdrechion!

**Codi arian**

Llwyddiant mawr fu ein Dydd Gwener Pinc eleni. Gweithiodd y cyngor ysgol yn galed gan gynnig gweithgareddau 'pinc' amrywiol ac fe gasglwyd £578 tuag at elusen Cancr y Fron. Diolch i bawb am eu cyfraniadau.

# Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd

**Staff newydd**

Croeso i athrawon newydd yr ysgol – Mrs Catrin Llywelyn a Miss Lowri Hughes. Croeso hefyd i'n cynorthwywyr dysgu newydd – Miss Glesni Delve, Miss Erwain Alaw, Miss Fflur Angharad, Miss Catrin James a Miss Elan Evans.

**Sialens ddarllen haf y llyfrgell**

Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig ym mis Hydref i wobrwyo 92 o blant yr ysgol lwyddodd i gwblhau sialens ddarllen yn ystod gwyliau'r haf. Roedd pob un ohonynt wedi llwyddo i ddarllen chwech llyfr. Llongyfarchiadau i bob un ohonoch!

**Cyrsiau Preswyl**

Mae dechrau'r flwyddyn ysgol wedi bod yn gyfnod prysur iawn! Bu disgyblion blwyddyn 4 ar gwrs preswyl yn Abercraf a disgyblion blwyddyn 5 yng Nghanolfan Danywenallt. Rhaid canmol y plant i gyd am eu hagwedd a'u hymddygiad a diolch i'r staff i gyd am eu cyfraniad at ymweliadau llwyddiannus.

**Arholiadau chwythbrennau**

Llongyfarchiadau i Teifi James, Ben Jones a Lara Bryant –mae pob un ohonynt wedi llwyddo i basio'r arholiad Gradd 1 Ffliwt.

**Cyngor yr ysgol 2011-12**

Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol ar gael eu hethol i'r Cyngor Ysgol: Teifi James, Dafydd Sandall, Tomos Price, Mari Lewis, Sara Mackie, Ariadne Koursarou, Sam Woods, Katie Sullivan ac Osian Williams.

**Cyngor Eco 2011-12**

Llongyfarchiadau hefyd i Ifan Rees, Megan Howe, Cai Green, Ben Brown, Eva Singer, Chelsea Williams, Jack Price, Jac Griffiths a Conor Harvard am gael eu hethol i Gyngor Eco'r ysgol.

**Drama mewn diwrnod**

Cafodd disgyblion blwyddyn 3 lawer o hwyl ar ddiwedd yr hanner tymor yn ymarfer actio ar gyfer perfformio drama "Cantre'r Gwaelod" mewn diwrnod. Cafwyd perfformiad gwych ar ddiwedd y dydd a'r ddau ddosbarth wedi cydweithio'n berffaith i ail-greu'r chwedl enwog.



*Disgyblion Bl.3 yn perfformio 'Cantre'r Gwaelod'*

## Ysgol Plasmawr

**O Fedi i Hydref ...**

Crynodeb o ddigwyddiadau ers dechrau'r Tymor, ar ffurf araith derbyn gwobr Oscar!

- Wythnos hynod o lwyddiannus i Flwyddyn 7 yn Llangrannog.
- Cynhadledd Fusnes ym Mae Caerdydd i ddisgyblion Blwyddyn 10. Cefnogwyd y digwyddiad gan ysgolion Bro Morgannwg, Rhydywaun, Gartholwg, Llangynwyd, Cwm Rhymni a Gwynllyw. Diolch enfawr i'r 9 cyfundrefn a gefnogodd y digwyddiad.
- 3 alldaith Dug Caeredin i ardaloedd y Fenni, Bannau Brycheiniog ac i ardal y Gŵyr. Profiadau anhygoel i'r disgyblion yn anelu i ennill y gwobrau Efydd ac Arian. Diolch enfawr i Aled Morgan am ei holl waith trefnu a pharatoi.
- Ymweliadau di-ri â sioeau fel rhan o gyrsiau Saesneg a Drama



*Criw un o alldeithiau Gwobrau Dug Caeredin*

- Diwrnod Addysg Bersonol a Chymdeithasol – estynnwyd croeso arbennig i nifer o gyfundrefnau lleol pan gynhaliwyd yr ail ffair yrfaoedd i ddisgyblion Blwyddyn 10 ac 11. Diolch enfawr i Anwen Phillips o Gyrfa Cymru am ei gwaith paratoi.
- Taith Blwyddyn 7 i Sw Bryste (mewnbynnwch jôcs eich hunain fan hyn!)
- Llongyfarchiadau i Mrs Ceri Llywelyn (Adran Saesneg) ar enedigaeth Iago yn gynnar ym mis Hydref (diodydd am ddim yn Nos Da yn ôl y sôn!).
- Cystadleuaeth Canwr y Flwyddyn – llongyfarchiadau i Megan Jones (enillydd Blynyddoedd 7-9), Elena Clarke (10-11), Osian Hughes (16+) ar eu llwyddiannau, ac i Osian am ennill y brif wobr. Diolch i Eifion Davies am ei holl waith yn trefnu'r noson.
- Llongyfarchiadau i Jams Powys ac Elin Rowlands o Flwyddyn 13 am gael eu hethol yn brif swyddogion yr Ysgol.

## Ysgol y Berllan Deg

**Chwaraeon**

Curodd y tîm rygbi Ysgol Mynydd Bychan o 38 i 20, a chafwyd gêm galed yn erbyn Ysgol Treganna, ac yn anffodus mi wnaethon ni golli o un cais. Llongyfarchiadau mawr i Ioan Lloyd, Jake Williams a James Kennedy am ddod yn rhan o garfan rygbi ysgolion Caerdydd. Pob llwyddiant i chi.

**Ymweliadau Addysgiadol**

Bu Blwyddyn 1 ar ymweliad â Bae Caerdydd a mwynhaodd Blwyddyn 2 eu hymweliad â Sain Ffagan yn braslunio adeiladau gwahanol. Bu Blwyddyn 5 yn cymryd rhan yng Nghwis Mwyaf Cymru yn y Barri – caiff y rhaglen ei darlledu ar S4C ym mis Tachwedd. Cafodd Blwyddyn 6 wythnos i'w chofio yn Llangrannog. Hefyd yn ogystal, aeth aelodau o'r Pwyllgor Eco i Gynhadledd Ynni Ysgolion Caerdydd 2011 i ddysgu am lawer o ddulliau ar sut i arbed ynni.



*Bl.5 Cwis Mwyaf Cymru*

**Diwrnod T Llew Jones**

Dathlwyd diwrnod T Llew Jones eleni eto, a daeth pawb i'r ysgol wedi gwisgo fel cymeriad o nofelau'r awdur. Bu gwobrau am y gwaith cartref a'r wisg orau ymhob dosbarth, ac enillwyd y raffl fawr, sef llong forladron lego, gan Katrina Paterson, Blwyddyn 3.

**Bardd Plant Cymru**

Daeth Eirug Salisbury, Bardd Plant Cymru, i gynnal gweithdy ysgrifennu gyda Blwyddyn 5.

**Disgo**
Diolch yn fawr i'r Ffrindiau am gynnal disgo Calan Gaeaf i blant yr ysgol.

**Cyfarchion**
Dymunwn yn dda i Mrs Amy Mills sydd wedi cychwyn ar ei chyfnod mamolaeth.

## Ysgol Pencae

**Llangrannog**
Aeth disgyblion Blwyddyn 6 i Langrannog ym mis Medi gan fwynhau'r profiad yn fawr. Mwynheuon nhw hefyd eu hymweliadau â Chanolfan Technoleg Amgen ym Machynlleth ac i Ddolau Cothi.

**Y Gofod**
Dyrchafwyd cromen enfawr yn neuadd yr ysgol er mwyn addysgu disgyblion Blwyddyn 5 a 6 am y gofod. Dysgon nhw am y planedau, yr haul a'r lleuad ynghyd ag am y tymhorau ac ati. Roedd hi'n dywyll iawn i eistedd yn y gromen ac yn brofiad gwerth chweil!

**Cwis Mwyaf Cymru**
Derbyniwyd gwahoddiad i fod yn gynulleidfa ar gyfer y cwis hwn. Cymrodd rhai o'r disgyblion ran yn yr heriau gan sicrhau llwyddiant i'r ysgol. Llongyfarchiadau mawr!

**Clwb Ffilm**
Aeth y disgyblion hynaf i ganolfan Chapter yn Nhreganna er mwyn gwylio'r ffilm Secret of Kells. Mae gwylio ffilmiau fel rhan o'r Clwb Ffilm yn fodd diddorol o sbarduno gweithgareddau llythrennedd y disgyblion.

**Adar Ysglyfaethus**
Daeth pob math o adar ysglyfaethus i'r ysgol er mwyn i'r disgyblion gael dysgu mwy am y modd mae'n nhw'n byw ac yn hela eu praidd. Cafodd ambell ddisgybl y cyfle i afael ynddynt a'u hedmygu.

**Drysau Agored Llandaf**
Agorwyd drysau'r ysgol i'n cyfeillion yn Llandaf fel rhan o gynllun Drysau Agored Llandaf. Aethpwyd â nhw ar daith o amgylch yr ysgol cyn mwynhau cyngerdd gan y disgyblion. Darparwyd te, coffi a bisgedi Masnach Deg ynghyd â chacennau gan Mrs Hayes iddyn nhw. Casglwyd arian at yr elusen MacMillan fel rhan o'r fenter Bore Coffi MacMillan.






**Gwasanaeth Cynhaeaf**
Daeth Dr Phil Ellis aton ni o'r elusen Enfys Gobaith er mwyn annerch y disgyblion ynghyd â rhannu gwybodaeth ynglŷn â'r hyn mae'r elusen yn ei chyflawni ar ran y digartref a'r anghenus yng Nghaerdydd. Diolch iddyn nhw ill dau ynghyd ag haelioni'r disgyblion a'u teuluoedd tra'n cefnogi'r elusen hon.



**Diwrnod Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd**
Dewiswyd yr ysgol i gymryd rhan yng ngweithgarwch y diwrnod hwn yng Nghanolfan y Mileniwm. Perfformiodd disgyblion ar lwyfan y Lanfa, cymryd rhan mewn gweithdy operatig gan ddysgu cân Eidalaidd ynghyd â sawl gweithgaredd ieithyddol arall.





- Mae amrywiaeth lawn o'n cynhyrchion i'w gweld yn ein hystafelloedd arddangos yng Nghaerfyrddin a Chaerdydd
- Marciau barcud newydd ar bob ffenestr a drws
- Gwydr newydd sydd yn glanhau ei hun ac yn thermol effeithiol
  - Gwarant deg mlynedd heb ddadl
  - Dim costau cudd, dim blaendâl
  - Dyfynbris am ddim heb ymrwymiad
  - Awdurdodwyd yn llwyr gan Secured by Design

NOLAN

**Prif Swyddfa:** 1 St Ivel, Heol Llansteffan, Tre-Ioan, Caerfyrddin, SA31 3BP
**Ystafell Arddangos Caerdydd:** 112 Heol Y Gogledd, Caerdydd, CF14 3AB
E-bost: sales@nolanupvc.co.uk

Ffôn: 0845 600 90 80 www.nolanupvc.co.uk

# Pasport



**Beth yw dy enw?**
Anwen Dyfi Parker

**O le wyt ti'n dod yn wreiddiol?**
Machynlleth

**Ym mha ran o Gaerdydd wyt ti'n byw?**
Ron i'n arfer byw yn y Rhath cyn symud i Lanilltud Fawr ym Mro Morgannwg bum mlynedd yn ôl.

**Ers faint wyt ti'n byw yng Nghaerdydd?**
Ers 1990. Symudais i Gaerdydd i gychwyn cwrs gradd yn UWIC.

**Beth fuest ti'n ei wneud cyn[neu]ar ôl symud yma?**
Dwi wedi treulio hanner fy mywyd yng Ngaerdydd a'r Fro ond dal i feddwl fy mod yn ferch o Fachynlleth!

Ar ôl graddio yn UWIC es i Fflorida i weithio i Walt Disney World fel llysgennad dros Gymru – roedd yn flwyddyn anhygoel. Pan ddes i'n ôl ges i swydd gyda Thomson Reuters a gwnes i ffrindiau da iawn. Dwi dal i'w gweld nawr. Ond doedd fy nghalon i ddim yn y swydd ac es i weithio i gwmni cysylltiadau cyhoeddus bach a oedd yn gweithio gyda chwmniau Cymreig. Cefais gyfle i siarad Cymraeg bob dydd gyda fy nghyd-weithwyr! Ar ôl 4 mlynedd llwyddiannus yn trefnu digwyddiadau a gofalu am y swyddfa, cefais swydd gyda'r Cerddwyr fel Swyddog Hybu Cerdded. Cwrddais â fy ngŵr, Nick, yn ystod y cyfnod yma. Ar yr un pryd cwrddodd fy chwaer, Dona, â'i gŵr hithau hefyd, a phenderfynon ni i gyd symud i fyw i Lanilltud Fawr i fwynhau'r arfordir a'r wlad. Flwyddyn yn ôl cawson ni fabi bach o'r enw Catrin. Hi yw fy swydd llawn amser nawr!

**Beth wyt ti'n hoffi ei wneud yn dy amser hamdden?**
Mynd am dro gyda'r teulu a Griff, y daeargi Cymreig, coginio - yn enwedig jam - a thyfu llysiau yn yr ardd.

**Be sy'n gwneud i ti chwerthin?**
Fy merch, Catrin a'm dau nai, Iori a Bleddyn.

**Beth sy'n dy wylltio di?**
Pethau bach fel gweld pobl yn taflu 'sbwriel ar y llawr a'm cymdogion sy' ddim yn ailgylchu!

**Oes yna fannau yng Nghaerdydd wyt ti'n hoffi mynd iddyn nhw? Pam?**
Cerdded dros y Morglawdd ym Mae Caerdydd a chael hufen ia o Cadawalder's yn yr haf a choffi cynnes yn y gaeaf!

**Lle wyt ti'n hoffi mynd am wyliau?**
Cymru fach am y golygfeydd, Ffrainc am y bwyd a Gorllewin Awstralia am y coed mawr "Tingle".

**Beth ydy'r peth mwyaf unigryw am Gaerdydd? Pam?**
Taith Tâf - y gallu i gerdded neu seiclo o Gaerdydd i Aberhonddu drwy ardaloedd sy'n gyfoethog o ran tirwedd a threftadaeth (a'r posibilrwydd o ddal y bws neu'r trên yn ôl!)

**Lle wyt ti'n gweld dy hun mewn deng mlynedd?**
Dal yma!




# GWIBDAITH CYMDEITHAS GYMRAEG RHIWBEINA

Falmai Griffiths, cadeirydd egnïol a brwdfrydig y Gymdeithas, a drefnodd y daith hon o'r dechrau hyd y diwedd, a mawr oedd boddhad pawb a ymunodd â'r daith. Cychwynwyd o Riwbeina ar fore 21 Mehefin, gan alw yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod, am goffi a phice ar y maen cyn anelu am bentre Rhos ger Wrecsam i ymweld â'r 'Stiwt' enwog ar ei newydd wedd, cyn cael ein tywys o gwmpas y pentref.

Yna, ymlaen i Westy'r Bryn Howel, ger Llangollen, a leolwyd mewn ardal hardd efo golygfa o Gastell Dinas Brân i'w gweld drwy'r ffenestri, a'r gamlas yn llifo ar waelod gardd y gwesty.

Yna, yn ystod y tridiau nesaf, ymwelwyd â Ffynnon Gwenffrewi yn Nhreffynnon ac Eglwys Gadeiriol Llanelwy, a chael ein tywys o gwmpas trefi Rhuthun, Yr Wyddgrug a Dinbych, yn ogystal â chael taith ar Gamlas Llangollen gan groesi pont ddŵr enwog Froncysyllte. Wrth droi am adre, cawsom daith ar y trên o Langollen i Garrog, yna cawsom orig yn y Bala ar y ffordd i Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth, a chael hoe cyn gyrru ymlaen am yr M4 ac adre.

Roedd y rhaglen yn un llawn a mwynheuwyd y cwbl, ac wrth ddod oddi ar y bws yn Rhiwbeina, y cwestiwn a ofynnwyd oedd – 'beth am daith debyg y flwyddyn nesaf?'! Edrychwn ymlaen am glywed gan ein cadeirydd brwd.



*Aelodau Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina y tu allan i Westy'r Bryn Howel, Llangollen*

# Llythyr at y Golygydd...

### Academi Heddwch Cymru : Gwahoddiad caredig

Ie, dyna yw'r nodyn hwn, gwahoddiad i'r holl ddarllenwyr weithredu ar fater sydd o'r pwys mwyaf.

A fyddem ni yn falch fod gennym fel cenedl gorff teilwng, tebyg i'r un sydd gan Fflandrys a gwledydd eraill yn Ewrop a'r byd, a allai, ar sail ymchwil eang a barn deg, gynnig arweiniad i'r Cynulliad Cenedlaethol a sefydliadau eraill yng Nghymru ar faterion cyfiawnder, heddwch a hawliau dynol?

A fyddem yn dymuno gweld Cymru yn cael llais cryf i allu datgan wrth y Cynulliad Cenedlaethol: 'Dywedwch 'na' wrth Lywodraeth Prydain; digon yw digon, nid yw Cymru mwyach am gael ei llusgo, fel ci bach, i ryfeloedd, megis yn Irac ac Affganistan'?

A fyddem yn dymuno gweld diwedd ar y militareiddio mawr sy'n parhau i ddifwyno cannoedd ar gannoedd o aceri yng Nghymru: Epynt, Sain Tathan, Aber-porth, Llanbedr... ?

A ydym am roi terfyn ar yr erchylltra barbaraidd sy'n digwydd yn Aber-porth heddiw (ysywaeth gyda sêl bendith ein Cynulliad Cenedlaethol), sef hyfforddi gwŷr a gwragedd sut i ddefnyddio awyrennau di-beilot – 'adar angau' – awyrennau sydd eisoes wedi lladd cannoedd, onid miloedd, o bobl gyffredin mewn sawl gwlad.

A ydym am weld diwedd ar wario biliynau o bunnoedd ar arfau, bomiau a Thrident, a defnyddio'r arian hwnnw yn hytrach ar wasanaethau dyngarol, meddygol ac addysgol?

A'r un mor bwysig, onid yn bwysicach, a ydym am weld cyflwyno cyfiawnder, heddwch a hawliau dynol fel pynciau craidd yn ysgolion Cymru?

Os 'ie' yw ein hateb i unrhyw un o'r cwestiynau hyn, yna y mae gennym yn awr gyfle euraid i fod â rhan mewn ymgyrch sydd o'r pwys mwyaf i'n dyfodol ac i ddyfodol ein plant. Y mae gennym gyfle i sicrhau y bydd Cymru, fel gwlad fechan, yn gallu rhoi arweiniad i Ewrop ac, yn wir, i'r byd: creu diwylliant heddwch, nid diwylliant rhyfel; chwifio baner cyfiawnder a hawliau dynol, rhyddid a heddwch.


**Da yw dweud,**
**Gwell yw gwneud.**

Beth yw'r cam nesaf? Dro yn ôl cyflwynwyd deiseb yn annog y Cynulliad Cenedlaethol i sefydlu Academi Heddwch i Gymru. **Bellach y mae Pwyllgor Deisebau'r Cynulliad yn gwahodd unigolion, cymdeithasau, eglwysi a sefydliadau eraill i anfon eu sylwadau at y Pwyllgor erbyn 14 Rhagfyr 2011.** Dyma'r cyfeiriad: Abigail Phillips, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA. petition@wales.gov.uk

Canmil diolch am eich cefnogaeth.

**Robin Gwyndaf,**
Is-Lywydd Cymdeithas y Cymod yng Nghymru

# DINESAIR Rhif 117




### Ar Draws

1. Agor perlau cymysg i gael sawr braf (10)
7. Y meddyg a'r esgid ddi-sawdl yn tewhau (7)
8. Yng nghanol bwyta bara wysg dy gefn yn Ystrad Fflur efallai (5)
10. Diffyg gwres yn Sioe'r Felin (6)
12. Un fel Steffan yn cael nerth a grym yn rhannol gymysg (6)
13. 'Y ----- a fodlonodd gyfiawnder
    Daenellwyd ar orsedd ein Duw' (D.C.) (5)
14. Ffordd i Les fod yn ddi-galon (4)
16. Asgwrn mules (4)
17. Gwasgu Llangurig mewn i wisg ddur (5)
19. Yr haul yn Lloegr yn dychwel ar ôl y mab yng nghyfraith talentog (6)
20. 'Y Rhwyd a'r Twlc' yn Lloegr yn lle i letya (6)
23. Rhwng machlud a gwawr ymddengys y tŷ hwn (5)
24. Pe cawl i ia can wledda! (7)
25. Hogyn fel Pinnochio (6,4)

### I Lawr

1. Y selog yn troi i fyny yn Stomp y byrbwyll (5)
2. Trafod gwersi iaith (6)
3. Roedd ias ar yn ail yn ddigon i wneud pwdin (4)
4. 13 yn dal Robert a'i achub (6)
5. Y Sul a aeth yn ofidus (7)
6. Cyrhaeddiadau dawnsio da dy fodiau (10)
9. 'Niwloedd a nos, y sêr a'r wawr
   -- -------- y rhain sy fawr' (I.C.P.) (2,8)
11. Dechreuadau lawnsio 'Wythnos Caru Un Salw'. Dyna ffodus! (5)
12. Enigma di-ddiwedd yn creu lle i roi dy fysedd (5)
15. Benthyca a thaflu chwyn i gôl Ena (7)
17. Aml y llusgo o gwmpas (6)
18. Cyn y Sadwrn ar blaned arall (6)
21. 'Mae bro rhwng môr a mynydd
    Heb arni ----- na chraith' (R.W.P.) (5)
22. Rhoi pwyslais ar Aelod Cynulliad heb roi enw llawn (4)

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams, 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN erbyn 5 Tachwedd.

# Newyddion o'r Eglwysi

## Bethel, Penarth

**'Bwriwch y rhwyd i'r ochr dde…'**
Bore Sul, Hydref 9fed, oedd hi a chriw ohonom o ardal Penarth a'r cylch ar ein ffordd i'r oedfa Ddiolchgarwch yng nghapel Bethel, Penarth. Dim byd yn arbennig yn hwnna meddech chi - ond faint ohonoch chi tybed gafodd y syrpreis gawsom ni wrth fynd i mewn i'r capel? Yn lle'r ford gymun a'r pulpud arferol, cwch hwylio crand a'i hwyl liwgar yn ymestyn i'r nenfwd a rhwydau o gwmpas y cwch gyda defnydd sgleiniog yn cynrychioli'r môr a'r ewyn gwyn. "Waw" oedd ymateb y rhan fwyaf ohonom ni.



*Y 'pysgotwyr' yn yr 'Optimist'.*

Gwahoddwyd saith o'r plant i fynd i'r cwch a rhoddwyd 'souwester' melyn i bob un. Clywyd sŵn y gwynt yn chwythu a sŵn tonnau cryf y môr. Adroddodd y Parchedig Kevin Davies stori'r disgyblion yn mynd i bysgota ar Fôr Tiberias ac yn methu dal yr un pysgodyn. Yn ddiflas a digalon dyma nhw'n troi am adref. Yna daeth llais o gefn y capel (Hana Evans mewn siorts a panama gwellt!) yn annog y criw bach i fwrw'r rhwyd i'r ochr dde. Wrth dynnu datgelwyd llond rhwyd o bysgod lliwgar a chlywyd hwre oddiwrth y criw. Daeth y plant o'r cwch ac aeth y stori ymlaen i sôn am yr Iesu yn paratoi brecwast ac yn rhannu'r wledd. A dyna oedd y neges - rhannu'r hyn sydd gyda ni a bod yn gefn i'n gilydd.

Yn ddiweddglo i'r bore, dyma ni gyd yn dod at ein gilydd i fwynhau rholyn bara a 'fish fingers'! Fel dwedodd Abiah Roderick yn ei gerdd - "O, ma lot da ni fod yn ddiolchgar".

Diolch Kevin a diolch i Glwb Hwylio Penarth am fenthyg y cwch. Mae enw'r cwch – 'Optimist' - yn dweud y cyfan.





**ACIWBIGO**
Gwenan Evans
**ACUPUNCTURE**

Helpu i wella iechyd a lles yn holistaidd gydag aciwbigo traddodiadol

Cysylltwch i drafod a fedr aciwbigo eich helpu chi. Ymgynghoriad cychwynnol byr 15 munud ar gael am ddim dros y ffôn neu yn y clinig.

**Ffôn: 07816 878117**
**Ebost: aciwbigo@gwenanevans.com**
**www.gwenanevans.com**

Clinics ym Mhenarth a'r Mwmbwls



## Capel Ebeneser

**Cyrddau pregethu**
Y Parchg Aled Edwards ddaeth atom eleni ar Medi 9fed i'n cyrddau pregethu blynyddol. Yn y bore ei destun oedd 'Ffiniau'. Byrdwn ei neges oedd bod ffiniau rhwng cenhedloedd o ran diwylliant, cymdeithas ac iaith yn creu casineb, rhyfeloedd a chamddealltwriaeth. Ond daeth Crist i chwalu'r ffiniau dim ond i ni ei dderbyn.

Gyda'r nos, yng nghwmni eglwysi Cymraeg eraill canol y ddinas, hanes Joseff oedd ganddo. Oherwydd casineb a chenfigen fe'i gwerthwyd gan ei frodyr i gaethwasiaeth. Cafodd ddawn gan Dduw i ddehongli breuddwydion ac arweiniodd hynny at ennill ffafr Pharo, gan iddo ragfynegi'r newyn oedd i daro'r wlad. Teithiodd ei frodyr i'r Aifft i ofyn am gymorth. Cawsant faddeuant gan Joseff ac adferwyd eu perthynas. A oes gan rai pobol heddiw ddawn i ddehongli breuddwydion heb ein bod yn eu hamau a'u drwgdybio? A oes dawn gennym ni i faddau?

**Y Gymdeithas**
Cynhaliwyd noson agoriadol Y Gymdeithas gyda swper ac adloniant ar Hydref 11eg. Heb yn wybod i Alun a Vikki Tudur noson oedd hi i ddathlu eu priodas arian a 25 mlynedd Alun yn y weinidogaeth. Yn anffodus oherwydd salwch methodd Vikki fod yn bresennol. Fodd bynnag braf oedd cael croesawu hen ffrind i'n plith, sef Y Parchg Geraint Tudur, a hynny'n hollol annisgwyl. Cafwyd dwy ddeuawd gan Arwel ac Eleri Peleg Williams, cwis am 1986 gan yr ieuenctid a darllen dwy gerdd gan Bethan Hayes – 'Y Briodas', Dic Jones, ac 'Allwedd Cariad' gan awdur anhysbys.

**Bys a bawd**
Cynhaliwyd swper bys a bawd i ffrindiau newydd a myfyrwyr yn dilyn yr oedfa nos ar y Sul cyntaf o Hydref. Daeth criw bach atom a hyfryd oedd cael eu croesawu'n gynnes i Ebeneser. Bwriadwn gynnal digwyddiad fel hwn ar ddechrau bob tymor er mwyn croesawu a chymdeithasu. Diolch i bawb gyfrannodd tuag at y bwyd.

## Eglwys Dewi Sant

**Cymdeithas Dewi Sant**
Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Gymdeithas ddiwedd mis Medi pan ddaeth nifer dda i wrando ar un o'n haelodau, Beti Davies, yn disgrifio'i thaith i Chile. Roedd hi'n noson agoriadol arbennig.
(Gweler stori 'Arwr Llongddrylliad')

**Diolchgarwch**
Roedd yr eglwys yn edrych yn hardd iawn ar gyfer gŵyl y Diolchgarwch, diolch i waith caled merched Cylch Dewi. Cawsom wasanaethau bendithiol o dan ofal y ficer a chyfle i fwynhau cwmni'n gilydd dros ginio yn neuadd yr eglwys.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â Joan Thomas, Llandaf wedi iddi golli ei hŵyr, Daniel, yn ei ugeiniau cynnar, ar ôl cyfnod hir o salwch.

## Minny Street

**Bedydd**
Hyfrydwch fu tystio i fedydd Megan Kenny, merch Lisa a Sacha (Wimbledon) ac wyres Moyra a Peter Greaney, yn oedfa foreol 16 Hydref. Pob dymuniad da i'r teulu.

**Cymdeithas y Beibl**
Ymunodd nifer o aelodau Eglwys Minny Street ag Adran Chwiorydd Caerdydd o Gymdeithas y Beibl ar nos Fercher 12 Hydref ar gyfer gwasanaeth, ffair a noson goffi yn Eglwys Park End. Un o'n cyd-aelodau, Marged Williams, yw Llywydd yr Adran. O'r 6912 iaith a glywir ar ein planed, mae mwy na hanner ohonynt yn dal heb un llyfr o'r Beibl yn perthyn iddynt. Mae gweithio dros sicrhau bod y Beibl ar gael mewn amrywiol ieithoedd yn rhan fawr o waith Cymdeithas y Beibl. Rhaid hefyd sicrhau bod testun y Beibl yn gyraeddadwy. Er enghraifft, mae 52% o drigolion Ethiopia yn anllythrennog; rhaid felly sicrhau bod y Beibl ar gael mewn ffurf heb fod yn ysgrifenedig. Mae'r Gymdeithas hefyd yn trefnu cyfresi o gyrsiau deongliadol i gynorthwyo darllenwyr i ddeall ystyr a negeseuon yr efengyl.

**Elusen 2011/12**
Sul cyntaf Hydref yw'r Sul y byddwn fel eglwys yn canolbwyntio, mewn addoliad, ar ein helusen newydd. Ambiwlans Awyr Cymru yw elusen 2011/12 a byddwn yn gweithio drosti yn ystod y 12 mis nesaf.

**Babimini**
'O'r ieuengaf i'r hynaf' yw un o hoff ymadroddion ein gweinidog. Mae sesiynau Babimini, rhwng 09:45 a 11:15 bob bore Gwener yn ystod tymor ysgol, yn gyfle i blant o dan dair oed chwarae mewn hafan gartrefol yn y festri. I'w gofalwyr, mae'n gyfle i rannu sgwrs a chwmni mewn awyrgylch hamddenol. Ers sefydlu Babimini y llynedd rydym wedi croesawu degau o blant bach o bob rhan o Gaerdydd - rhai â chysylltiad uniongyrchol â'r eglwys ac eraill yn croesi'r trothwy am y tro cyntaf. Cofiwch fod croeso i unrhyw un ymuno â chriw bore Gwener.

Am holl newyddion Minny Street ewch i www.minnystreet.org.

## Salem Treganna

**Clwb Criced**
Ddiwedd Medi cawsom ginio Clwb Criced, noson i'w chofio wrth edrych yn ôl dros y tymor.

**Clwb Cerdded**
Yn ystod y mis cyfarfu'r clwb cerdded ac fe gafwyd tro hynod bleserus ar hyd Afon Taf. Diolch i bawb am eich cwmni.

**Cylch Trafod Beiblaidd**
Testun y trafod oedd y Bregeth ar y Mynydd, a bu'n hyfryd cael cyfle i wrando ac i gyfrannu i'r drafodaeth.

**Priodas**
Llongyfarchiadau mawr i Heledd Hall a Brian Clark ar eu priodas fis Awst eleni, a'r dathlu yn ystod yr Hydref. Dymuniadau gorau i chi'ch dau i'r dyfodol.

**Bedyddiadau**
Cafwyd gwasanaeth anarferol yn ystod y mis pan fedyddiwyd dwy gyfnither, sef Awen, merch Aled a Sian, a Gwennan, merch Aled a Bethan.

Hefyd yn ystod y mis, bedyddiwyd Osian Rhys, mab Arwyn a Ffion.

Dymunwn yn dda i chi i gyd i'r dyfodol.

**Adran yr Urdd Salem**
Yn ystod Hydref cafwyd gweithdy drama, a chwis yn sesiwn olaf y mis.

Roedd y plant wrth eu boddau, a gwych eu gweld yn cael cyfle i gymdeithasu a chael hwyl.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn fawr ag Elgan a Hazel wrth i Elgan golli ei fam yn ddiweddar.

**Gwasanaeth Diolchgarwch**

Cawsom wasanaeth diolchgarwch bendithiol iawn o dan arweiniad yr Ysgol Sul.

## Tabernacl

**Oedfa neilltuo Marc Jon Williams fel Ysgogwr Cenhadol**

Bu'n ddiwrnod prysur wrth i nifer dda o eglwysi'r Gymanfa anfon cynrychiolaeth i Gapel Rhondda ger Pontypridd i hyrwyddo cenhadaeth Marc Jon Williams. O blith aelodau'r Tabernacl, cyfrannodd Gwenallt Rees, ein gweinidog a Rhys ab Owen. Bu Eiri Jones yn brysur fel cyfieithwraig.

**Cystadleuaeth Bryn Terfel**

Llongyfarchiadau i Steffan Jones ar roi cyfrif da ohono'i hun yn y gystadleuaeth ar nos Sul olaf Medi. Gall fod yn falch o'i berfformiad mewn cystadleuaeth o safon uchel iawn.

**Hugh Matthews yn dathlu 50 mlynedd yn y weinidogaeth**

Bydd pawb sy'n gyfarwydd â gweinidog anrhydeddus y Tabernacl yn gwybod am ei ymroddiad, ac ar hyd yr hanner canrif a fu ers dydd ei ordeinio yn Llanbedr Pont Steffan, bu'n ffyddlon i'w alwad. Llongyfarchwn Hugh ar gyrraedd y garreg filltir hon.

**Cymdeithas Nos Fawrth**

Dechreuodd rhaglen y tymor newydd fis Hydref gyda Swper y Llanciau, yna ymweliad â'n cyfeillion o Aberdar yn Abercwmboi, gan ddiweddu'r mis gyda Wil Morgan a'i 'lond bol o straeon'. Dymunwn yn dda i'r swyddogion eleni - Marc Jon yn gadeirydd, Martin Cray yn ddirprwy, Bryn Evans yn ysgrifennydd a Jean Evans yn drysorydd.

**Cymdeithas y Chwiorydd**

Bu'n ddechrau tymor prysur – Cerddoriaeth Mansel Thomas gyda Huw Thomas, Cwrdd Diolchgarwch gyda'n cyfeillion o Ebeneser ac yna taith o gwmpas yr Hen Lyfrgell.

**Bore Coffi**

Diolch i Gwyn ac Eirlys Jones am eu croeso hynaws ym mis Medi. Daeth cyfle i'r criw bore coffi fore Mercher ymgasglu yng nghartref Huw a Siân Thomas ganol Hydref.

**Cronfa'r Organ**

Yn ystod mis Medi bu Cerddorfa Siambr Manceinion yn perfformio a chafwyd datganiadau canol dydd yng nghwmni Steffan Morris (cello); Anne Denholm (telyn) a Steffan Jones (baritôn). Yna rhoddodd un o organyddion amlycaf Llundain, sef Martin Neary, cyn organydd Abaty Westminster, ddatganiad ddechrau mis Hydref.

## Y Crwys

**Priodas**


Er i ni i fynd trwy gyfnod o gnwd o briodasau yn y Crwys yn ystod yr haf eleni, yr Hydref yma a ddaeth ag un arall. Priododd Jonathan mab Wynne a Beryl Thomas o Llanisien a Caitlin Richards yn Neuadd y Ddinas Caerdydd. Dymuna'r Eglwys yn dda iddynt yn eu bywyd priodasol.

**Y Gorlan**

Erbyn hyn cafwyd dau gyfarfod o'r Gorlan ar brynhawn Dydd Mercher. Cynhaliwyd un yn y Festri o dan arweiniad Gwen Holt a'r Parchg Lona Roberts.Yn y cyfarfod hwn cafwyd gair o arweiniad gan Lona cyn iddi weinyddu yr ordinhad o swper yr Arglwydd. Yna ar Hydref 19eg aeth criw o'r aelodau i ymweld â Chapel Penrhiw yn Sain Ffagan. Yno, cawsom gyfle i glywed yr Athro John Gwynfor Jones yn trafod Penrhiw fel y math o adeilad sy'n nodweddu cyfnod cynnar ymneilltuaeth. Eglurodd hefyd Undodiaeth fel credo grefyddol sy'n gwadu diwinyddiaeth neu athrawiaeth y Drindod.

**Y Gymdeithas**

Cafodd aelodau Y Gymdeithas noson gofiadwy ar y Nos Wener Medi 30ain pryd y cafwyd cyfle i wrando ar y Cyn-archdderwydd John Gwilym Jones yn trafod sut y bu i Bwyllgor Golygyddol Caneuon Ffydd ddewis a dethol yr emynau y dylid eu cynnwys mewn casgliad o'r fath. Gwnaeth hynny i raddau trwy gyfeirio at rai emynau a'u hawduron yn unig, gan ddangos trwy'r dull yma fod gan y panel ganllawiau pendant wrth gynnwys neu efallai wrthod ambell emyn lled gyfarwydd.



**Diolchgarwch**

Bu cyfarfod diolchgarwch plant yr Ysgol Sul yn rhan o'r oedfa ar fore Sul Hydref 9fed. Gofynwyd i'r rhieni am gyfraniadau o fwydydd addas neu arian i'w rannu rhwng yr anghenus. Cafwyd ymateb teilwng, ac fe fydd y Cardiff Food Bank yn cael eu ddosbarthu yn ôl y galw ar ran yr Eglwys.

## Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg

**Gweithiwr newydd**

Braf oedd croesawu Emyr James ym mis Medi fel gweithiwr newydd, wrth i'r Eglwys ehangu ei thîm gweinidogaethol. Mae'n ymuno â gweithwyr presennol yr Eglwys, sef y Parchg Gwynn Williams (gweinidog) a Trystan Hallam (gweinidog cynorthwyol), fel gweinidog dan hyfforddiant. Magwyd Emyr yn yr Eglwys cyn mynychu Prifysgol Aberystwyth lle graddiodd mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol. Wedi cyfnod yn astudio diwinyddiaeth, mae'n edrych ymlaen yn fawr 'nawr i ddechrau gweinidogaeth amser llawn.

**Clwb Gwyliau**

Yn ystod hanner tymor yr Hydref cynhaliwyd clwb gwyliau yn adeilad yr Eglwys yn Rhymney St., Cathays, ar gyfer plant oedran cynradd. Roedd yn hyfryd gweld cynifer o wynebau newydd yn ystod y ddeuddydd. Byddwn yn parhau i gynnal clwb wythnosol i blant oedran cynradd yn Ysgol Melin Gruffydd, Yr Eglwys Newydd, bob dydd Llun am 5.30y.h. Cynhelir clwb i blant oedran uwchradd yn adeilad yr Eglwys bob nos Wener am 7.00y.h. Mae croeso cynnes i unrhyw un sydd am ymuno â ni.

# Calendr y Dinesydd • Tachwedd-Ionawr

**Iau, 10 Tachwedd**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Sgwrs gan Wynford Ellis Owen am Gyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill, yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, am 7.30pm.

**Gwener, 11 Tachwedd**
Cynhelir Degfed Gynhadledd Flynyddol Canolfan Uwchefrydiau Cymry America ddydd Gwener, 11 Tachwedd, rhwng 10.15am a 3.45pm. Thema'r gynhadledd: 'Cymry ar Daith ar Gyfandiroedd America.' Siaradwyr: Dylan Iorwerth, E. Wyn James, Bill Jones, Diana Luft, Catrin Stevens. Lleoliad: Ystafell 0.36, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd. Tâl: £15 (£10 i rai digyflog). Croeso cynnes i bawb. Manylion pellach: Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd (029-2087-4843; ebost: cymraeg@caerdydd.ac.uk; gwefan: www.caerdydd.ac.uk/cymraeg/).

**Sadwrn, 12 Tachwedd**
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs gan Lis Williams ar y testun 'Hedd Wyn – Dwy Gerdd' am 11.00am. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 12 Tachwedd**
Cyngerdd organ ganol-dydd gan Terry Gilmore James yng Nghapel Tabernacl, Yr Ais, i ddathlu atgyweirio'r organ yno.

**Mawrth, 15 Tachwedd**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Owain Llŷr Evans, Rhiannon Evans a Glyn Jones yn trafod 'lle i enaid gael llonydd', yn festri Capel Minny Street, am 7.30pm.

**Mercher, 16 Tachwedd**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. 'Tro i'r Baltig' gyda Mefus Eirwyn-Evans, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Gwener, 18 Tachwedd**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan yr Athro J. Gwynfor Jones ar y testun 'Ysgrifennu Hanes – Hanes Enwad', yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm. Cydnabyddir nawdd Llenyddiaeth Cymru.

**Gwener, 18 Tachwedd**
Clwb y Diwc. Elin Fflur a'r Band a Them Lovely Boys yn perfformio yn y Duke of Clarence, Treganna, am 8.00pm.

**Sadwrn, 19 Tachwedd**
Gêm Gartref C. R. Cwins Caerdydd (Adran 4) yn erbyn Aber-carn ar Faes Diamond. C. G. 2:30pm.

**Llun, 21 Tachwedd**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Sgwrs gan yr Athro Stuart Cole ar y testun 'I'r Gorllewin o Paddington', yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30pm.

**Llun, 21 Tachwedd**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. 'Diogelwch trwy Ddaearu Pŵer Trydan'. Darlith gan Dr Mark Davies (Cwmni Earthing Solutions), yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Iau, 24 Tachwedd**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Pwyllgor Blynyddol, yng Nghapel Salem, Treganna, am 7.30pm.

**Mawrth, 29 Tachwedd**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. 'Gefeillio Eglwysi – Yr Eglwys ar Waith'. Hanes y cysylltiad â Lesotto gan Gwenallt a Non Rees, yn festri Capel Minny Street, am 7.30pm.

**Mercher, 30 Tachwedd**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Ymweld â'r Amgueddfa Genedlaethol yng nghwmni Ann Saer.

**Gwener, 2 Rhagfyr**
Cymrodorion Caerdydd. Sgwrs gan Llŷr Gwyn Lewis ar y testun 'Dŵr a Thân: Cadeiriau'r Urdd 2010, 2011', yng Nghapel y Crwys, Heol Richmond, am 7.30pm.

**Gwener, 2 Rhagfyr - Sadwrn, 3 Rhagfyr**
Clwb y Diwc. Theatr Bara Caws yn perfformio 'C'mon Midlaiff' yn Neuadd Llanofer, Treganna, am 7.30pm. Tocynnau: £8; ar gael o siop Caban, Treganna.

**Sul, 4 Rhagfyr**
Côr CF1 a'r Sinffonieta Brydeinig yn perfformio Christus Natus Est (Eilir Owen Griffiths) am 8.00pm yn The Gate, Keppoch St, Y Rhath. Tocynnau: £10, gan aelodau'r côr neu drwy'r Swyddfa Docynnau (029) 2048-3344.

**Llun, 5 Rhagfyr**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. 'Y Newid Mawr.' Darlith gan Euryn Ogwen (gynt o S4C), yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Llun, 5 Rhagfyr**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills am 7.30 pm. Siaradwraig wadd: Nerys Howell (Ymgynghoriaeth Bwyd Howel). Manylion pellach gan Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).

**Mercher, 7 Rhagfyr**
Merched y Wawr Bro Radur. Blasu bwydydd y Nadolig gyda'r cogydd Aneira Wyn Jones, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Windsor Road, Radur, am 7.30pm.

**Mercher, 7 Rhagfyr**
Clwb Gwawr 'Llygaid y Dydd'. Noson i steilio gwallt at y parti Nadolig yng nghwmni arbenigwr yn y maes, yng Nghlwb Bowls Pen-hill am 8.00pm. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch drwy dudalen Facebook ClwbGwawrCaerdydd neu drwy e-bost (clwbgwawrcaerdydd@hotmail.com).

**Sadwrn, 10 Rhagfyr**
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs gan Dr Christine James am gerdd Nadoligaidd am 11.00am. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Llun, 12 Rhagfyr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Swper Nadolig ac adloniant, yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30pm.

**Mawrth, 13 Rhagfyr**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Dathlu'r Nadolig gyda Hannah Roberts, yn festri Capel Minny Street, am 7.30pm.

**Mawrth, 13 Rhagfyr**
Merched y Wawr Caerdydd. Gweithdy ymarferol trefnu blodau yng nghwmni Ann Mears, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed, am 7.30pm.

**Mercher, 14 Rhagfyr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Gwasanaeth a the parti'r Nadolig, yn festri Capel Minny Street am 1.00pm. Gŵr gwadd: Parch. Dyfrig Lloyd.

**Mercher, 21 Rhagfyr**
Clwb y Diwc. Noson Nadoligaidd i'r teulu gyda Band Melingruffydd a Bechgyn Bro Taf, yn y Duke of Clarence, Treganna. Mynediad £3 (oedolion) a £1 (plant).

**Sadwrn, 24 Rhagfyr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Gwasanaeth carolau a chanhwyllau, dan ofal Rhys a Gwenda Morgan, yng nghapel Bethel am 11.00pm.

**Mawrth, 3 Ionawr 2012**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. 'Merched Trafferthus.' Sgwrs gan Elwyn Hughes, yn festri Capel Minny Street, am 7.30pm.

**Mercher, 4 Ionawr**
Merched y Wawr Bro Radur. 'Cwpwrdd Dillad y Genedl.' Sgwrs gan Elen Phillips am gasgliad gwisgoedd a thecstiliau Amgueddfa Werin Cymru, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Windsor Road, Radur, am 7.30pm.

**Iau, 5 Ionawr**
Clwb Gwawr 'Llygaid y Dydd'. Noson 'Pŵer y Positif', yng Nghlwb Bowls Pen-hill am 8.00pm. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch drwy dudalen Facebook ClwbGwawrCaerdydd neu drwy e-bost (clwbgwawrcaerdydd@hotmail.com).

**Sul, 8 Ionawr**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Dathlu'r Plygain yn Eglwys Teilo, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, yng nghwmni'r Parchg Ddr R. Alun Evans.

**Llun, 9 Ionawr**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills am 7.30 pm. Manylion pellach gan Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).

*Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at* Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; ebost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

# DIGWYDDIADAU I DDOD

## *Côr CF1 yn cynnal cyngerdd Nadolig arbennig*

Nos Sul 4 Rhagfyr, am 8.00 pm, bydd Côr CF1 yn cynnal cyngerdd mawreddog yng Nghanolfan Gelfyddydol The Gate yn y Rhâth, Caerdydd. Bydd y cyngerdd yn cynnwys gwaith arbennig gan arweinydd y Côr, Eilir Owen Griffiths, sef *Christus Natus Est*, i gyfeiliant y Sinffonieta Brydeinig. Dyma'r eildro i'r gwaith hyfryd hwn gael ei berfformio, ond y tro hwn, ceir symudiad newydd nas perfformiwyd yn gyhoeddus o'r blaen. Dathliad cerddorol yw'r gwaith, sy'n cyfuno carolau adnabyddus a cherddoriaeth wreiddiol gan Eilir. Mae'n waith egnïol dros ben o gerddoriaeth flodeuog a hwyliog.

Tocynnau *Christus Natus Est*: £10 gan aelodau'r côr neu'r Swyddfa Docynnau - (029) 2048 3344.

## *Nadolig – Y Stori*

Mewn ymgais i dynnu sylw siopwyr prysur dros gyfnod y Nadolig at wir ystyr yr ŵyl mi fydd perfformiadau o Stori'r Geni yn cael eu cynnal bob 40 munud bob dydd rhwng Ragfyr 1 a 22 (gyda llai ar y Sul) yn y Tabernacl, yr Ais. Mae tua 300 o wirfoddolwyr yn gweithio er mwyn galluogi'r perfformiadau i ddigwydd, ac os hoffech fod yn rhan o'r digwyddiad ewch i'r wefan http://the-story.org.uk/.




# ARWR LLONGDDRYLLIAD


Ar 29 Mawrth 1938 gadawodd yr SS Harmattan borthladd Y Barri am Santos, Brasil, gyda llwyth o lo, dan gapteniaeth Capten Evan Rowlands. Gydag ef ar y fordaith yr oedd ei wraig Margaret ('Peg'). Cymry oedd y ddau, y naill o Lanrhystud a'r llall o Lanon.

Wedi dadlwytho yn Santos, yr oedd yn rhaid mynd i Valpariso, Chile, i godi cargo arall. Wrth hwylio i'r gogledd ar hyd arfordir Chile yr oedd yn rhaid wrth wasanaeth peilot i dywys y llong drwy'r culfor yng nghyffiniau Puerto Montt. Trodd y tywydd yn stormus, ac ar 21 Mai taflwyd yr Harmattan ar graig.

Penderfynwyd gadael y llong. I wneud hyn yr oedd yn rhaid sicrhau rhaff i graig gyfagos i osod 'breeches buoy' i alluogi'r criw, a dwy wraig oedd ar y fordaith, i adael y llongddrylliad yn ddiogel. Yn yr argyfwng hwn, gwirfoddololdd morwr ifanc o Gaerdydd (19 mlwydd oed) i neidio i'r môr gyda rhaff i'w sicrhau i'r graig. Llwyddodd pawb i adael y llong yn ddiogel – y capten yn olaf, wrth gwrs. Ynyswyd y fintai fel hyn am un diwrnod ar bymtheg a daeth brodorion (noeth!) i ymweld â nhw yn eu cychod bychain.

Cadwodd gwraig y capten ddyddiadur o'r fordaith, ac mae'r dyddiadur hwnnw ym meddiant ei merch, Mrs Beti Davies, Caerdydd. Bu Beti yn dweud yr hanes anturus wrth Gymdeithas Nos Iau Egwys Dewi Sant y mis diwethaf, ac yn adrodd ei hanes hithau yn teithio i Puerto Montt a'r cylch i ymweld â'r lleoedd a fu a rhan trawmatig yn hanes ei rhieni.

Enw'r morwr ifanc a fu mor ddewr oedd Martin Hugh Lee, ac am ei ddewrder cyflwynwyd Medal Aur Stanhope iddo gan y Royal Humane Society. Beth tybed ddigwyddodd iddo? A oes ganddo deulu o hyd yng Nghaerdydd? Hoffem wybod.



*S.S. Harmattan*

## Rygbi yn Vigo

Yn wahanol i'r gweddill o'm teulu 'does gen i ddim diddordeb mewn rygbi, ond un bore Sadwrn ym mis Medi eleni, a'r tymheredd tua 30°C, 'roeddwn i ar faes chwarae Prifysgol Vigo, yn Galicia, yn gwylio sesiwn o ymarfer rygbi! – un i blant rhwng pedair ac wyth oed, a fy nai yn un ohonynt.

'Roedd y rhai hŷn yn medru rhedeg a phasio'r bêl yn rhwydd a'r lleill yn dysgu wrth esiampl o dan hyfforddiant dau diwtor. O'r dosbarth yma o tua 30 o blant byddai'r goreuon yn cael ymuno â'r 'tîm'.

Ar ran arall o'r cae chwarae 'roedd plant tipyn hŷn, gan gynnwys dwy ferch, yn ymarfer rygbi.

Yn Vigo dyma'r unig le i ymarfer ar gyfer chwarae rygbi, ond mae nifer fawr o glybiau pêl-droed yn bodoli, a rhaid taw uchelgais bob bachgen sy'n perthyn i un o'r clybiau hyn yw cael chwarae rhyw ddydd dros Celta de Vigo, sydd ar hyn o bryd yn Adran II yn Sbaen (ond sydd wedi bod hyd yn ddiweddar yn Adran I).

A oes raid i dîm rygbi cenedlaethol Cymru ofni tîm cenedlaethol Sbaen yn y dyfodol? Amser a ddengys! Ond cefais i fore Sadwrn diddorol ar y teras yng nghwmni rhieni'r nifer fach yma o blant oedd yn cael eu hyfforddi. (Mae Vigo gymaint, os nad yn fwy, na Chaerdydd.) Ta beth am y bêl hirgron, mae rhieni Vigo yn medru gweiddi gystal, os nad gwell, na'r Cymry wrth annog eu plant i ragori mewn chwaraeon!

A wyddech fod yna glwb rygbi yn ne Sbaen o'r enw C.R.A.P. (Club de Rugby Atlético Portueuse, Cádiz) a phob chwaraewr yn cario'r llythrennau hyn ar ei gefn yn ystod gêmau? Penderfynodd un Cymro beidio ymuno â'r clwb – nid oedd yn hoffi'r enw!!

***Sally Evans** – mamgu Paulo Wyn*